Hyfforddiant alergedd ar gyfer busnesau bwyd

Hyfforddiant alergedd ar-lein ac adnoddau e-ddysgu ar gyfer busnesau bwyd.

Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar reoli alergenau yn effeithiol.

Dylai eich staff:

- wybod y weithdrefn pan ofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth am alergenau
- gael eu hyfforddi ar sut i drin ceisiadau gwybodaeth am alergenau yn gywir
- allu gwarantu fod prydau sy'n rhydd o alergenau yn cael eu gweini i'r cwsmeriaid cywir
- wybod y risgiau o groeshalogi alergenau wrth drin a pharatoi bwyd, a sut i atal hyn.

Hyfforddiant alergedd bwyd

Rydym ni'n cynnig hyfforddiant alergedd rhad ac am ddim lle allwch chi a'ch staff ddysgu rhagor am reoli alergenau mewn cegin a sut y gallwch chi ddarparu ar gyfer gofynion gwybodaeth am alergenau.

Gallwch hefyd rannu ein rhestr wirio alergenau gyda staff i gael cyngor ar ofynion rheoli alergenau ac arfer gorau.

Adnoddau gwybodaeth am alergenau

Mae gennym ni amrywiaeth o adnoddau ar gael i'ch helpu i dracio'r alergenau yn eich bwyd yn glir, ac i godi ymwybyddiaeth o sut i ddelio â cheisiadau am wybodaeth am alergenau gan gwsmeriaid.

Efallai y byddai'n syniad rhoi taflenni nodi alergenau ar gyfer y ryseitiau ar eich bwydlen i staff sy'n ymwneud â pharatoi bwyd. Gallwch ddefnyddio'r templed pryd unigol ar gyfer unrhyw brydau 'arbennig' neu i gofnodi pan fydd cynhwysion yn newid mewn pryd rheolaidd.

Efallai eich bod yn dymuno arddangos poster alergedd ar y safle. Rydym ni'n darparu posteri yn Gymraeg, Saesneg, Bengaleg (?????), Cantoneg (??), Pwnjabeg (??????) ac Wrdw (????).

Deunyddiau cynllunio bwydlen

View Arwydd Alergedd ac Anoddefiad as PDF (13.44 KB)
View Gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd rhydd as PDF (3.21 MB)
View Cardiau Rysait i'r Cogydd as PDF (253.11 KB)

Wales

View Siart o brydau a'u cynnwys alergenaidd as PDF (379.76 KB)